# HYSBYSIAD O GYNIGION

## Cyngor Sir Ddinbych (Amrywiol Ffyrdd yn Sir Ddinbych) (Dirymu Parthau 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 30mya) a (Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20mya ar amrywiol ffyrdd yn Sir Ddinbych)

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi rhybudd drwy hyn ei fod yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adrannau 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'r holl bwerau galluogi eraill, a fydd yn:-

**1.** Dirymu'r Gorchmynion Cyfyngu Cyflymder presennol a restrwyd isod a fydd yn dychwelyd i statws ffordd gyfyngedig.

Mae hyn oherwydd terfyn cyflymder 20 mya rhagosodedig Llywodraeth Cymru a ddaeth i rym ar 17 Medi 2023 ar draws Cymru a dim angen y Gorchmynion hynny mwyach a bydd statws Ffordd Gyfyngedig fel y'i diffinnir yn Adran 82 y Ddeddf felly yn dychwelyd ar hyd y ffyrdd yn y Gorchmynion hyn.

- Gorchymyn Cyngor Sir Clwyd (Princes Street, y Rhyl) (terfyn cyflymder 20mya) (Rhif 5) 1993'
- Gorchymyn Cyngor Sir Clwyd (Rhodfa'r Brenin ac Oxford Grove, y Rhyl) (Terfyn Cyflymder 20mya) 1996
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (B5119 GRANGE ROAD, Y RHYL) (CYFYNGIAD CYFLYMDER AMRYWIOL) 2007
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (SPRUCE AVENUE A FFYRDD CYFAGOS, Y RHYL) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20MYA) 2010
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (AMRYWIOL FFYRDD, Y RHYL, LLANGOLLEN A CHYNWYD) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20MYA) 2017
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (FFORDD DDIDDOSBARTH, LLANDEGLA) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20MYA) 2017
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (FFORDD TRELLEWELYN A TRELLEWELYN CLOSE, Y RHYL) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20MYA) 2017

**2.** I ddirymu'r gorchmynion a wnaed yn flaenorol gan y cyn Gyngor Sir Ddinbych, cyn Gyngor Sir Clwyd a Chyngor Sir Ddinbych fel awdurdod olynol a restrwyd isod.

- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (A543 DINBYCH) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30MYA) 2015
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (FFORDD GWAENYNOG, DINBYCH) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30MYA) 1971
- Gorchymyn Cyngor Sir Clwyd (A525 Ffordd Dinbych, Rhuthun) (Ffyrdd Cyfyngedig)

(Rhif 1) 1985

- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (B5429 Pentre Celyn) (Cyfyngiad Cyflymder 30 mya) 2018

**3.** I greu gorchmynion cyfyngiad cyflymder 20 mya ar hyd y ffyrdd a restrwyd isod.

- A543 St Brigids A543; o'r ffin ogleddol o'r Orsaf Bwmpio, i gyfeiriad y de i'r golofn oleuo bresennol gyntaf (oddeutu 14 metr o ganol mynedfa Ysgol St Brigids, i gyfeiriad y de)

- Ysgol Bro Famau, Llanarmon yn Iâl Ffordd Ddiddosbarth y tu allan i Ysgol Bro Famau, Llanarmon yn Iâl; rhwng pwynt 15 metr i'r de o'i ffin mwyaf deheuol o'r ysgol i gyfeiriad y gogledd i'w ffin mwyaf dwyreiniol

- Ysgol Llanbedr DC, Ffordd Llanbedr; rhwng pwynt 33 metr i'r gogledd o ymyl palmant gogleddol a ragwelir o fynediad cerbydau gogleddol yr ysgol ac i bwynt 127 metr i'r de o ymyl palmant gogleddol a ragwelir o fynediad cerbydau gogleddol yr ysgol.

- Ysgol Pentre Celyn, Pentre Celyn - B5429; rhwng pwynt sydd 98 metr i'r de o ffin ddeheuol mynedfa gerbydau'r ysgol isaf at y gyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o Old Farmhouse i Dderwen Llanerch - Rhuthun

Os bydd angen, gellir gweld copi o'r Hysbysiad, y Gorchymyn arfaethedig a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yn y llyfrgelloedd canlynol:-

1. Llyfrgell Dinbych, Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3NU
2. Llyfrgell Rhuthun, Stryd y Llys, Rhuthun, LL15 1DS
3. Llyfrgell Llangollen, y Capel, 19-21 Heol y Castell, Llangollen LL20 8NU
4. Llyfrgell Rhuddlan, Vicarage Lane, Rhuddlan, LL18 2UE
5. Llyfrgell y Rhyl, Stryd yr Eglwys, y Rhyl, LL18 3AA
6. Llyfrgell Prestatyn, 21 Rhodfa'r Brenin, Prestatyn, LL19 9AA
7. Llyfrgell Llanelwy, Y Ro, Llanelwy, LL17 0LU
8. Siop Un Alwad Corwen, Neuadd Edeyrnion, Heol Llundain, Corwen, LL21 0DG

Gall unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig wneud hynny drwy gyflwyno ymatebion i holiadur ynglŷn â'r cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych dan Borth Sgwrs y Sir (sgwrsysir.sirddinbych.gov.uk) neu drwy anfon datganiad ysgrifenedig yn gwrthwynebu, yn nodi'r seiliau i'r gwrthwynebiad, at Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ, erbyn 5 Mawrth 2025 fan bellaf. Dylid nodi y gallai unrhyw sylwadau y mae'r Cyngor yn eu derbyn fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

Dyddiedig 12 Chwefror 2025



Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych